| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 23/05/18 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 22/11/18 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Addysg |
| **Maes Gwaith:** | Blynyddoedd Cynnar |
| **Manylion cyswllt:** | Fiona Santos<br>GGiD@caerffili.gov.uk<br>Ffôn: 01443 863419 |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Darparwyr y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer cronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a chronfa ddata Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru. |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

**Categorïau/Ffynhonnell data personol a geir**

Mae'r wybodaeth am ddarparwyr gofal plant yn cael ei chadw ar gronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor, a elwir yn Synergy, a chronfa ddata Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru (Dewis Cymru).

Dyma restr o'r wybodaeth y byddwn yn ei chasglu:

- Enw'r busnes
- Manylion cyswllt
- Tudalen ar y cyfryngau cymdeithasol
- Enw'r prif gyswllt/rheolwr neu berchennog
- Cyfeiriad y busnes
- Cyfeiriad y wefan
- Grwpiau oedran darparu gwasanaeth
- Oriau agor y busnes
- Dewis iaith
- Cymwysterau a hyfforddiant
- Manylion cofrestru
- Opsiynau talu
- Cyfleusterau'r busnes
- Manylion am eich profiad, hyfforddiant (a gwblhawyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf) a'ch hyder o ran helpu plant ag anghenion ychwanegol.
- Nifer y lleoedd gofal plant ar gael
- Nifer y lleoedd gweithgareddau ar gael
- Costau'r busnes
- Gweithdrefnau atgyfeirio (lle bo hynny'n berthnasol)
- Cymhwysedd y busnes

Gall y Cyngor gasglu'r wybodaeth hon mewn sawl ffordd:

- Ar lafar dros y ffôn
- Drwy ddiweddariadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)
- E-bost
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gall darparwyr ddiweddaru eu gwybodaeth eu hunain gan ddefnyddio'r Porth Darparwyr ar Synergy a Dewis Cymru ar unrhyw adeg.

Byddwn yn cadw'ch data:

- Ar gronfeydd data diogel ar-lein sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Cyhoeddir data gweithredol ar wefannau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Diben y gwaith prosesu**

Mae angen i'r Cyngor brosesu'r data hyn i allu darparu gwasanaeth statudol i fodloni gofynion adrannau 22, 26 a 27 Deddf Gofal Plant 2006 drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Drwy gasglu eich data, mae hyn yn gwella gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gydlynu ac asesu'r cyflenwad a'r galw am ofal plant yn yr awdurdod lleol.

Mae'r data a gesglir hefyd yn caniatáu i weithwyr proffesiynol, sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth ddiduedd a hygyrch am ddim sydd ar gael am wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae darparwyr hefyd yn cael yr opsiwn i'w gwybodaeth gael ei chofnodi ond heb fod ar gael i'r cyhoedd.

Defnyddir eich data hefyd ar gyfer monitro mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerffili.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod.

Mewn perthynas â sicrhau bod y gwaith prosesu yn bodloni gofynion adrannau 22, 26 a 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1e. processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;

**Mewn perthynas â'r holl waith prosesu arall** (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1f. processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**
Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol ar gyfer gweinyddu contractau ac at ddibenion gweinyddu cleientiaid, digwyddiadau a marchnata. Gallwch ddewis peidio â chael y cyfathrebiadau hyn ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni.

Byddwn hefyd yn defnyddio'ch gwybodaeth gyswllt i anfon gwybodaeth atoch y credwn sydd o ddiddordeb i chi, megis manylion ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, cylchlythyrau, diweddariadau cyfreithiol, nodiadau briffio, a gwahoddiadau i ddigwyddiadau. Gallwch ddewis peidio â chael y cyfathrebiadau hyn ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni. Bydd y Cyngor a Dewis Cymru yn cysylltu â chi bob chwe mis i ofyn i chi wirio bod yr wybodaeth sy'n cael ei chadw ar Synergy a chronfa ddata Dewis Cymru yn dal yn gywir ac yn gyfoes.

Mae'r Cyngor yn rhannu'ch data â Llywodraeth Cymru i adrodd ar y gwasanaeth. Yn yr achos hwn, mae'r data'n ddienw.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Timau eraill yng ngwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Rhennir gwybodaeth am ddarparwyr gofal plant â Dewis Cymru. Dyma gyfleuster chwilio'r we ar gyfer sefydliadau a gwasanaethau – www.dewis.cymru

Rhennir gwybodaeth am ddarparwyr gofal plant hefyd â Llywodraeth Cymru fel rhan o Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Caerffili. Nid yw hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol am y darparwyr eu hunain, dim ond gwybodaeth am y ddarpariaeth, y gwasanaethau a ddarperir a lleoliad.

**Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol**

Mae Dewis Cymru yn cael ei gynnal gan gwmni allanol, Crown Commercial Services, lle mae gennym gontract/gytundeb prosesu data ar waith i ddiogelu'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei phrosesu.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

**Manylion am y cyfnod cadw**

Bydd gwybodaeth am y darparwr yn cael ei chadw yng nghronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor (Synergy) a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru (Dewis Cymru) nes nad yw'r darparwr yn gweithredu mwyach neu fod y darparwr yn gofyn am gael gwared â'r wybodaeth.

## Marchnata

**Manylion marchnata**

Byddwch/Rydych wedi cael manylion am y gwaith marchnata yr hoffai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei gynnal, ynghyd ag unrhyw opsiynau megis sut yr hoffech gysylltu â chi. Gallwch ddewis peidio â chael cyfathrebiadau marchnata ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r maes gwasanaeth – mae'r manylion ar frig y ffurflen hon.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb